



Dysgu Iechyd a Gofal Cymru

Canllaw Asesu a Sicrhau Ansawdd i Ganolfannau

Fersiwn 1.2 Mawrth 2025

Fersiwn 1.2 o'r Canllaw Asesu a Sicrhau Ansawdd i Ganolfannau Dysgu Iechyd a Gofal Cymru yw hwn.

Bydd y ddogfen hon yn cael ei diwygio'n rheolaidd, ac yn cael ei chadw'n electronig. Mae rheolaeth fersiynau i'w gweld ar y copïau electronig.

Cynnwys

1.1	Cwmpas	4
1.3	Pwrpas	4
1.4	Cymwysterau.....	5
1.4	Paratoi asesiadau	7
Adran 2: Sicrhau ansawdd mewnol.....		9
2.1	Rôl Swyddog Sicrhau Ansawdd Mewnol (SSAM)	9
2.2	Strategaeth Swyddog Sicrhau Ansawdd Mewnol	9
2.3	Sicrhau Ansawdd asesiadau mewnol	9
2.4	Safoni mewnol.....	10
2.5	Samplu	11
2.6	Goruchwyllo a dilysu gwaith a asesir yn fewnol.....	11
2.7	Datblygiad Proffesiynol Parhaus	12
Adran 3: Sicrhau Ansawdd yn Allanol		13
3.1	Pwrpas sicrhau ansawdd allanol.....	13
3.2	Gweithgareddau monitro'r Swyddog Sicrhau Ansawdd Allanol.....	13
3.3	Y broses samplu Sicrhau Ansawdd Allanol	14
3.4	Canlyniad gweithgareddau Sicrhau Ansawdd Allanol.....	14
3.5	Materion a nodwyd drwy sicrhau ansawdd	15
3.6	Atal a rhyddhau ardystiad	15
3.7	Apelio penderfyniad Swyddog Sicrhau Ansawdd Allanol.....	16

Adran 1: Cyflwyniad

1.1 Cwmpas

Mae'r ddogfen hon yn ymwneud â'r gyfres o gymwysterau lechyd, Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant ar gyfer Cymru a gynigir gan City & Guilds a CBAC sy'n gweithio fel consortiwm o gyrff dyfarnu (yr enw arnyn nhw o hyn ymlaen fydd 'y consortiwm'). City & Guilds/CBAC yw unig ddarparwr cyfres newydd o gymwysterau lechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant wedi'u hariannu yng Nghymru. Mae'r gyfres hon yn cynnwys:

- Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd
- Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer
- Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori
- Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer
- Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori
- Lefel 4: Ymarfer Proffesiynol yn y maes Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant
- Lefel 4: Paratoi i Arwain a Rheoli yn y maes Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant
- Lefel 5: Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer
- Lefel 2 lechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd
- Lefel 2 lechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion)
- Lefel 3 lechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Plant a Phobl Ifanc)
- Lefel 3 lechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion)
- Lefel 4 Paratoi i Arwain a Rheoli yn y maes lechyd a Gofal Cymdeithasol
- Lefel 4: Ymarfer Proffesiynol yn y maes lechyd a Gofal Cymdeithasol Lefel 4: Paratoi i Arwain a Rheoli yn y maes lechyd a Gofal Cymdeithasol
- Lefel 4 Ymarferwr Gwasanaethau Cymdeithasol
- Lefel 4 Eiriolaeth Annibynnol
- Lefel 4 Lleoliadau Oedolion/Rhannu Bywydau
- Lefel 5: Arwain a Rheoli lechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer

1.3 Pwrpas

Agwedd hanfodol ar ddarpariaeth y cymwysterau hyn yw sicrhau ansawdd. Ar sail hyn gellir sicrhau uniondeb a gwerth asesiadau drwy gydol eu cylchred oes. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r gofynion o ran sicrhau ansawdd mewnol ac allanol. Ynndi, mae canllawiau ac enghreifftiau o ymarfer gorau i gefnogi'r canolfannau hynny sy'n darparu'r cymwysterau hyn.

Rydym yn cydnabod y gall darparu'r cymwysterau newydd hyn fod yn gryn her i ganolfannau. Rydym yn awyddus felly i sicrhau bod y dulliau perthnasol gan staff canolfannau i'w galluogi i sicrhau ansawdd mewnol yn effeithiol a chadarn, ac i'w helpu i ddeall pa mor bwysig yw sicrhau ansawdd allanol, yn ogystal â'r rhesymeg sy'n sail iddo.

Mae sicrhau ansawdd yn ffordd o sicrhau dilysrwydd cymwysterau ac yn rhywbeth y gall canolfannau gael gwir fantais ohono, gan gynnwys:

- profiad gwell i ddysgwyr
- codi cyfraddau cyflawni dysgwyr
- cynyddu nifer y dysgwyr sy'n cael eu cadw
- rhaglenni mwy cost effeithiol
- bodloni gofynion y rheoleiddwyr
- cefnogaeth o ran cynllunio a monitro a hunanasesiad

1.4 Cymwysterau

Grŵp	Cymwysterau	Nodweddion
A	TAG Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant	<ul style="list-style-type: none"> • Seiliedig ar Wybodaeth • Seiliedig ar gyfresi arholiadau • Arholi allanol a Chymedroli allanol • Mae angen cymeradwyo canolfannau – rhaid bodloni holl ofynion y Cyd-gyngor Cymwysterau (CGC) • Yn dilyn proses gymeradwyo safonol CBAC ar gyfer Cymwysterau Cyffredinol
	TGAU Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant	
B	Lefel 3 Tystysgrif a Diploma mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau	<ul style="list-style-type: none"> • Seiliedig ar Wybodaeth • Seiliedig ar gyfresi arholiadau • Arholi allanol a Chymedroli allanol • Mae angen cymeradwyo canolfannau a chymwysterau
	Lefel 2 Tystysgrif a Diploma mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Egwyddorion a Chyd-destunau	
C	Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer – Oedolion	<ul style="list-style-type: none"> • Seiliedig ar ymarfer • 100% asesu mewnol • Gwirio allanol • Mae angen cymeradwyo canolfannau a chymwysterau
	Lefel 3 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer – Plant a Phobl Ifanc	
	Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer – Oedolion	
Ch	Lefel 2 Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd	<ul style="list-style-type: none"> • Asesiad allanol • Mae angen cymeradwyo canolfannau a chymwysterau
D	Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Craidd	

Grŵp	Cymwysterau	Nodweddion
Dd	Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori	<ul style="list-style-type: none"> Gwybodaeth ac Ymarfer Seiliedig ar gyfresi arholiadau Asesu mewnol ac allanol Gwirio allanol Mae angen cymeradwyo canolfannau a chymwysterau
	Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori	
	Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer	<ul style="list-style-type: none"> Ymarfer 100% asesu mewnol Gwirio allanol Mae angen cymeradwyo canolfannau a chymwysterau
	Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer	
E	Lefel 5: Arwain a Rheoli Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer	<ul style="list-style-type: none"> Ymarfer Gwybodaeth Mae angen cymeradwyo canolfannau a chymwysterau
	Lefel 4: Ymarfer Proffesiynol yn y maes Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant	
	Lefel 4: Paratoi i Arwain a Rheoli yn y maes Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant	
F	Lefel 5: Arwain a Rheoli Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer	<ul style="list-style-type: none"> Ymarfer Gwybodaeth Mae angen cymeradwyo canolfannau a chymwysterau
	Lefel 4: Ymarfer Proffesiynol yn y maes Iechyd a Gofal	
	Lefel 4: Paratoi i Arwain a Rheoli yn y maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol	
	Lefel 4 Lleoli Oedolion/Cysylltu Bywydau	
	Lefel 4 Eiriolaeth Annibynnol	
	Lefel 4 Ymarferwr Gwasanaethau Cymdeithasol	

1.4 Paratoi asesiadau

I'w gweld isod mae rhai enghreifftiau o ymarfer da o ran y camau 'cynllunio', 'dysgu ac addysgu' ac 'asesu'. Efallai y byddan nhw'n ddefnyddiol wrth i ganolfannau ddarparu'r cymwysterau hyn. Gall staff mewn canolfannau ddewis pa bynnag ddull sydd fwyaf addas o ran cefnogi'r cymhwyster dan sylw.

a) Cam cynllunio

- Nodi a darllen yr holl ddogfennau perthnasol sydd ar gael gan City & Guilds/CBAC ar gyfer darparu'r cymhwyster.
- Cynnwys y tîm addysgu ehangach, gan gynnwys cyflogwyr a dysgwyr.
- Ystyried y cymhwyster cyfan yn ei gyfanrwydd a nodi unrhyw themâu a chynnwys y gellid ymdrin â nhw gyda'i gilydd.
- Nodi cynnwys a chysyniadau allweddol y mae angen eu haddysgu yn gyntaf, gan arwain wedyn at gynnwys uwch.
- Ystyried adnoddau dysgu a rôl 'dulliau gwrthdro' o ran ymdrin â chynnwys ac ehangu'r dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth.
- Dylid cynllunio cyfleoedd i gynnal ymweliadau a phrofiadau perthnasol sy'n bywiocáu dysgu ac yn atgyfnerthu byd real gwaith.
- Gwneud yn siŵr bod digon o amser yn rhan o'r cynllun dysgu i gynnal asesu ffurfiannol rheolaidd, fel ffug aseiniadau ac adolygu.
- Ystyried y cyfnodau ardystio wrth gynllunio asesiadau.

b) Cyfnod Addysgu a Dysgu

- Ymgymryd ag asesiad cychwynnol ar ddysgwyr.
- Defnyddio dulliau cyfarwyddol penodol i wneud y mwyaf o'r broses o drosglwyddo gwybodaeth, a modelu sut i gymhwyso gwybodaeth ar broblemau seiliedig ar waith perthnasol, gan gronni dealltwriaeth a sgiliau fesul tipyn.
- Cefnogi'r dysgu yn yr ystafell ddosbarth drwy ymweld â'r gweithle, defnyddio siaradwyr gwadd o ddiwydiant, dosbarthiadau meistr a chynnwys dysgu ar-lein deniadol.
- Mae angen cynnwys asesiadau ffurfiannol er mwyn gwirio gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr o gynnwys allweddol drwyddi draw.
- Mae angen i lefel yr her wahaniaethu'r dysgu gan roi cyfle i ddysgwyr llai galluog feithrin eu gwybodaeth a dealltwriaeth a chynnig cyfleoedd i ddysgwyr mwy galluog roi ystyriaeth fanylach ac ehangach i'r cynnwys pwnc.
- Defnyddio strategaethau addysgu a dysgu sy'n annog dysgwyr i fod yn chwilfrydig ac yn greadigol, gan ddod yn fwyfwy hyderus ac annibynnol.
- Defnyddio projectau ac aseiniadau ffug i wirio dealltwriaeth a sgiliau a hybu hyder dysgwyr mewn aseiniadau ar y diwedd.
- Defnyddio asesiadau sampl a chynlluniau marcio'r consortiwm fel sail i ddatblygu deunyddiau asesu ffurfiannol a ffug er mwyn ymdrin â'r amrediad llawn o gynnwys.

Drwy wneud hyn bydd dysgwyr yn cael eu paratoi i ddangos eu dealltwriaeth a'u sgiliau a sicrhau eu bod yn barod ar gyfer asesiadau.

c) Cyfnod asesu

- Dylai dysgwyr fod wedi'u paratoi'n dda ac yn hyderus i fynd ati i gwblhau asesiadau ar y diwedd i ddangos eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u sgiliau.
- Dylai'r tîm addysgu ystyried ac adolygu'r cynllun ar gyfer dysgu, gan ddefnyddio data yn dda gan gynnwys sylwadau ac adborth gan ddysgwyr.
- Rhaid i ganolfannau reoli'r broses o ailsefyll asesiadau pan fo angen.

Adran 2: Sicrhau ansawdd mewnol

2.1 Rôl Swyddog Sicrhau Ansawdd Mewnol (SSAM)

Mae rôl y swyddogion sicrhau ansawdd mewnol yn allweddol i weithdrefnau a systemau sicrhau ansawdd canolfan, yn arbennig o ran darparu cydrannau'r cymwysterau hyn a asesir yn fewnol. Maen nhw'n gyswllt hollbwysig rhyngom ni a'r ganolfan, yn nhermau sicrhau a chynnal safonau ansawdd.

Y SSAM sy'n sicrhau'r canlynol:

- Bod marcwyr / aseswyr yn parhau i wneud penderfyniadau dilys
- Bod marcwyr / aseswyr yn gwneud yr un penderfyniadau pan maen nhw'n derbyn yr un gwaith neu dystiolaeth dysgwr
- Bod asesiad pob dysgwr yn deg
- Bod asesiadau'n cael eu gweinyddu yn unol â'r gofynion cyhoeddedig

2.2 Strategaeth Swyddog Sicrhau Ansawdd Mewnol

Rhaid i ganolfannau lunio a chynnal Strategaeth Sicrhau Ansawdd Mewnol ysgrifenedig mewn perthynas â'r cymwysterau hyn gyda'r bwriad o sicrhau bod ansawdd yn rhan annatod o bob cam o daith yr ymgeisydd. O wneud hyn gellir sicrhau bod gweithdrefnau sicrhau ansawdd mewnol yn gywir ac yn gyson rhwng marcwyr / aseswyr wrth iddyn nhw ddefnyddio a dehongli dogfennau canllawiau ac asesu'r cymhwyster.

Rhaid i ganolfannau weithredu a chynnal gweithdrefnau sicrhau ansawdd mewnol ysgrifenedig, penodol i sicrhau bod penderfyniadau asesu yn gywir a chyson rhwng marcwyr / aseswyr sy'n gweithredu yn y ganolfan. Yn eu strategaeth Sicrhau Ansawdd Mewnol bydd canolfannau'n cydnabod y mân wahaniaethau sy'n bodoli rhwng cymwysterau gwahanol yn y gyfres.

Bydd strategaethau a gweithdrefnau Sicrhau Ansawdd Mewnol yn cael eu hadolygu yn rhan o drefn fonitro sicrhau ansawdd allanol barhaus y cymwysterau hyn.

2.3 Sicrhau Ansawdd asesiadau mewnol

Defnyddir dull asesu o arholiadau/proffion gwybodaeth wedi'u marcio'n allanol a/neu asesiadau wedi'u marcio'n fewnol, gyda'r ansawdd wedi'i sicrhau'n allanol i asesu'r cymwysterau IGCGP. Mae llawlyfr/manyleb y cymhwyster perthnasol yn rhoi manylion y dull asesu sy'n berthnasol i bob cymhwyster.

Mae'r drefn asesu a'r dulliau sicrhau ansawdd allanol yn wahanol i asesiadau mewnol y cymwysterau Craidd ac Ymarfer.

Cymwysterau Craidd

Mae'r cymhwyster craidd bellach yn cael ei asesu drwy gwestiwn amlddewis yn unig ac felly dim ond gwiriad systemau fydd yn ofynnol gan Swyddog Sicrhau Ansawdd Allanol. Dylai'r ganolfan ddangos gweithgarwch sicrhau ansawdd ar draws y cymhwyster hwn i sicrhau proses asesu gadarn a dilys.

Cymwysterau Ymarfer

- Yn achos cydrannau a asesir yn fewnol, byddan nhw'n cael eu hasesu a'u hansawdd yn cael ei sicrhau'n fewnol gyda'r Swyddogion Sicrhau Ansawdd Allanol wedyn yn eu gwirio'n allanol.
- Pwrpas y broses wirio yw sicrhau bod y cymwysterau hyn yn cael eu cyflwyno a'u hasesu yn ôl y safonau gofynnol. Bydd Swyddogion Sicrhau Ansawdd Allanol yn monitro gweithgarwch yr holl staff yn y ganolfan sy'n ymwneud â'r broses asesu a sicrhau ansawdd mewnol.
- Bydd y Swyddogion Sicrhau Ansawdd Allanol yn samplu amrywiaeth o ddysgwyr, gan ystyried penderfyniadau Swyddogion Sicrhau Ansawdd Mewnol ac aseswyr ac unrhyw gofnodion asesu perthynol. Rhaid i bob penderfyniad asesu fod yn ddilys, yn awthentig ac yn ddigonol (gallent gynnwys ymarfer – tasgau wedi'u gosod ymlaen llaw, log myfyriol, trafodaeth broffesiynol, cofnodion cyfarfodydd; Craidd – asesu ffurfiannol a pharodrwydd ar gyfer penderfyniadau asesu).
- Lle bo angen gwneud hynny bydd y Swyddogion Sicrhau Ansawdd Allanol yn dosbarthu cynlluniau gweithredu gwella i ganolfannau ac mae'n rhaid gweithredu ar y rhain cyn y gellid ardystio tystysgrifau.

2.4 Safoni mewnol

Ar gyfer yr asesiadau wedi'u marcio'n fewnol, mae'n hanfodol safoni marcwyr / aseswyr y ganolfan er mwyn sicrhau bod asesiadau'r ganolfan yn gyson, dibynadwy a chywir. Os na fydd marcio'r ganolfan yn cael ei safoni, mae'r risg yn cynyddu y bydd angen addasu'r marciau yn ystod y cam sicrhau ansawdd allanol. Mae hon felly'n broses bwysig i'w deall ac i'w rhoi ar waith.

Rôl y Swyddog Sicrhau Ansawdd Mewnol yw sicrhau bod safoni'n digwydd a bod safon gyffredin wedi'i chytuno ac yn cael ei defnyddio wrth farcio.

Mae'r broses safoni fewnol fel a ganlyn:

- Mae angen safoni pob asesiad sy'n cael ei farcio'n fewnol a dylai pob aseswr / marcwr gymryd rhan yn y broses honno.
- Rhaid i'r broses safoni ddigwydd bob amser gan ddefnyddio tystiolaeth dysgwyr 'byw' cyflawn (e.e. ar y rhaglen gyffredol).
- Yn unigol, dylai aseswyr / marcwyr farcio fel drafft sampl cyffredin o dystiolaeth dysgwyr a ddewiswyd ymlaen llaw, gan ddilyn y canllawiau marcio perthnasol.
- Dylid dewis y sampl cyffredin i ymdrin â'r amrediad o berfformiad sy'n ddisgwyliedig ar draws y garfan. Os yw'r garfan yn un fach (e.e. dan 10) dylid cynnwys pob dysgwr
- Lle mae amrywiaethau, dylai aseswyr / marcwyr eu harchwilio ar y cyd a dod i gonsensws wrth ddehongli'r canllawiau marcio. Os bydd unrhyw anghytuno, y Swyddogion Sicrhau Ansawdd Mewnol sy'n penderfynu'n derfynol.
- Anogir marcwyr i wneud nodiadau wrth safoni ac i ddatblygu deunydd cyfeirio i'w rannu fel ffordd o'u cefnogi i gynnal y safon a gytunwyd drwy gydol y marcio.
- Ar ôl cytuno ar y safon, dylid marcio darnau cyffredin pellach o dystiolaeth i gadarnhau eu bod yn cytuno'n glos.

2.5 Samplu

Bydd ansawdd asesu mewnol o ran ei gywirdeb yn cael ei sicrhau drwy samplu amrywiaeth o waith dysgwyr, er mwyn sicrhau ei fod yn bodloni'r safonau a gytunwyd. Y math o gymhwyster a'r dull asesu sy'n penderfynu ar y sampl i'w ddarparu.

- Cymwysterau Craidd:

Mae'r cymhwyster craidd bellach yn cael ei asesu drwy gwestiwn amlddewis yn unig ac felly dim ond gwiriad systemau fydd yn ofynnol gan Swyddog Sicrhau Ansawdd Allanol.

- Cymwysterau Ymarfer:

Defnyddir dull gwirio allanol gan Swyddogion Sicrhau Ansawdd Allanol y consortiwm ar gyfer yr asesu mewnol, gan ddefnyddio dull **samplu CAMERA** (*Candidates/Learners, Assessors, Methods of Assessment, Evidence, Records, Assessment locations*). Mae hyn yn golygu bod angen i gynllun y sampl ystyried pob un o'r canlynol:

Ymgeiswyr / dysgwyr	Sampl cynrychiadol yn seiliedig ar oedran, rhyw, ethnigrwydd, sgiliau yn y Gymraeg
Aseswyr	Profiad a chymwysterau, llwyth gwaith, profiad galwedigaethol
Dulliau asesu	Arsylwi a thrafodaeth dan arweiniad Aseswr / PD (gan ddibynnu ar y Lefel), holi cwestiynau, rhoi tystiolaeth, projectau (Lefel 4/5)
Tystiolaeth	Pob math o dystiolaeth (yn wahanol i'r dystiolaeth ofynnol a nodwyd yn llawlyfrau'r cymhwyster Ymarfer e.e., logiau myfyriol a chynlluniau gweithredu)
Cofnodion	Cofnodion asesu a Swyddog Sicrhau Ansawdd Mewnol (gan gynnwys cofnodion asesu cychwynnol, cofnodion paroddrwydd i'w hasesu)
Lleoliadau asesu	Asesiadau gweithle, coleg, lleoliad asesu arall

Bydd y Swyddog Sicrhau Ansawdd Allanol yn cytuno ar gynlluniau samplu CAMERA ar gyfer pob canolfan, cyn y broses wirio.

2.6 Goruchwylio a dilysu gwaith a asesir yn fewnol

Ar ran Pennaeth y Ganolfan, rhaid i Swyddogion Sicrhau Ansawdd Mewnol sicrhau eu bod yn cynnal gwaith a asesir yn fewnol yn unol â gofynion y Consortiwm bod.

- dysgwyr yn llofnodi ffurflen datganiad dilysrwydd i gadarnhau mai eu gwaith nhw yw unrhyw waith a gyflwynir a'u bod wedi mynychu asesiad mewnol Craidd.

- aseswyr yn cadarnhau ar y ffurflen datganiad dilysrwydd mai gwaith y dysgwr dan sylw yn unig yw'r gwaith a aseswyd a'i fod wedi'i gynnal dan yr amodau a nodwyd yn y dogfennau asesu.

2.7 Datblygiad Proffesiynol Parhaus

Rhaid i Swyddogion Sicrhau Ansawdd Mewnol arwain, cefnogi a sicrhau bod datblygiad proffesiynol (DPP) aelodau'r tîm yn barhaus. Rhaid i'r DPP hwn gynnwys diweddarau gwybodaeth yn gysylltiedig â galwedigaeth a gwybodaeth a chymhwysedd technegol yn unol â gofynion rheoleiddio a phroffesiynol perthnasol gan sicrhau eu bod yn cynnal ymarfer da o ran hwyluso dysgu ac asesu

Adran 3: Sicrhau Ansawdd yn Allanol

3.1 Pwrpas sicrhau ansawdd allanol

Pwrpas sicrhau ansawdd allanol yw cadarnhau bod penderfyniadau asesu a phrosesau sicrhau ansawdd mewnol canolfan yn ddilys, yn gyson ac yn bodloni gofynion y cymwysterau hyn.

Swyddogion Sicrhau Ansawdd Allanol (SSAA) fydd wedi'u dyrannu i bob canolfan gan y consortiwm fydd yn ymgymryd â'r gweithgareddau monitro hyn.

O ran asesiadau sy'n cael eu marcio'n fewnol y cymwysterau hyn, mae'n ofynnol i ganolfannau ardystio dysgwyr yn ystod cyfnodau penodol drwy gydol y flwyddyn. Bydd SSAA yn adolygu sampl o waith dysgwyr, penderfyniadau asesu a chofnodion yn ystod pob cyfnod ardystio er mwyn gwirio'r penderfyniadau asesu a wnaed gan y ganolfan.

Bydd y cymwysterau craidd yn destun ymweliad system gan Swyddog Sicrhau Ansawdd Allanol yn flynyddol.

3.2 Gweithgareddau monitro'r Swyddog Sicrhau Ansawdd Allanol

Bydd pob canolfan yn destun gweithgareddau monitro o bell neu wyneb i wyneb (y consortiwm fydd yn penderfynu hyn ar sail meini prawf seiliedig ar risg), gan gynnwys samplu penderfyniadau asesu, cyn ardystio unrhyw ddysgwyr. Amlinellir y broses samplu isod:

- a) Y consortiwm yn cysylltu â'r ganolfan i'w hysbysu ei fod yn bwriadu cynnal gweithgarwch samplu. Gall hyn gynnwys dogfen gynllunio i'w dychwelyd gan y ganolfan, i roi rhai manylion ynghylch pob dysgwr cofrestredig, gan gynnwys:
 - Enw'r aseswr
 - Enw'r Swyddog Sicrhau Ansawdd Mewnol
 - Dyddiad y Sampl Sicrhau Ansawdd Mewnol
 - Lleoliad yr asesiad
- b) Lle y bo'n gymwys, mae'r ganolfan yn dychwelyd y ddogfen gynllunio i'r consortiwm ac i'r SSAA
- c) Mae'r SSAA yn cwblhau ac yn anfon cynllunydd sampl i'r ganolfan, gan roi agenda ar gyfer y gweithgarwch samplu, gan gynnwys
 - Y cymwysterau a'r dysgwyr penodol i'w samplu
 - Staff i gwrdd/cysylltu â nhw
 - Gweithredoedd blaenorol i'w monitro (os yn berthnasol)
- d) Gweithgarwch samplu SSAA yn digwydd. Bydd y SSAA yn paratoi adroddiad am y gweithgarwch samplu, i'w drafod gyda'r ganolfan. Ni fydd y ganolfan, fodd bynnag, yn derbyn copi o'r adroddiad tan y bydd wedi'i brosesu gan y consortiwm.
- e) Bydd timau ansawdd y consortiwm yn adolygu ac yn prosesu'r adroddiad samplu SSAA. Ar ôl ei brosesu, anfonir yr adroddiad i'r ganolfan, gan nodi:
 - Dysgwyr sydd wedi cyrraedd y safon ac y gellir eu hardystio
 - Sylwadau ar ymarfer da a phethau y mae angen gwella arny'n nhw
 - Gweithredoedd a gwelliannau ar gyfer y ganolfan

3.3 Y broses samplu Sicrhau Ansawdd Allanol

SSAA y consortiwm fydd yn cynnal gweithgareddau samplu ar gyfer pob canolfan

Cymwysterau Craidd

- Mae'r cymhwyster craidd bellach yn cael ei asesu drwy gwestiwn amlddewis yn unig ac felly dim ond gwiriad systemau fydd yn ofynnol gan Swyddog Sicrhau Ansawdd Allanol.

Cymwysterau Ymarfer

Yn yr asesiadau sy'n cael eu marcio'n fewnol ar gyfer y cymwysterau Ymarfer mae gofyn i ddysgwyr gwblhau tasgau gosod, creu portffolio, cwblhau log myfyriol ac ymgymryd â thrafodaeth broffesiynol. Bydd SSAA yn samplu cofnodion asesu a SSAM y ganolfan ac yn adolygu sampl o bortffolios dysgwyr. I wneud hyn, byddan nhw'n cynnwys y canlynol yn eu strategaeth samplu, yn seiliedig ar CAMERA:

- Penderfyniadau Swyddogion Sicrhau Ansawdd Mewnol
- penderfyniadau aseswyr
- lleoliadau asesu
- dulliau asesu
- cofnodion asesu
- cyfweiliadau dysgwyr
- cyfweiliadau aseswyr
- cyfweiliadau Swyddogion Sicrhau Ansawdd Mewnol

Rhaid sicrhau bod mesurau effeithiol ar waith i drafod unrhyw ddiffygion o ran asesu. Rhaid i bob penderfyniad asesu fodloni'r rheol 'DAD' ('VAS') – hynny yw, bod y dystiolaeth yn rhywbeth Dilys, Awthentig a Digonol.

3.4 Canlyniad gweithgareddau Sicrhau Ansawdd Allanol

Ar ôl cwblhau'r broses sicrhau ansawdd allanol, bydd y SSAA yn darparu adroddiad ysgrifenedig ar gyfer y consortiwm. Bydd unrhyw benderfyniadau SSAA yn seiliedig ar y dogfennau sicrhau ansawdd a chanllawiau perthnasol yn ymwneud â chymwysterau/asesiadau. Bydd timau ansawdd yn adolygu ac yn prosesu adroddiad samplu'r SSAA. Ar ôl ei brosesu, anfonir yr adroddiad i'r ganolfan. Bydd yr adroddiad samplu SSAA yn rhoi adborth clir ar sut y cynhaliwyd yr ymweliad sicrhau ansawdd allanol a'i ganlyniadau o ran yr asesu, y sicrhau ansawdd mewnol ac unrhyw weithredu neu bwyntiau i'w gwella.

Gall y SSAA argymhell tri pheth yn yr adroddiad samplu, y mae angen i'r consortiwm eu cytuno ar gyfer y cymhwyster (cymwysterau) dan sylw:

- gellir ardystio'r holl ddysgwyr neu rai o'u plith
- ni ellir ardystio dysgwyr gan fod pryderon ynghylch y broses asesu a sicrhau ansawdd
- Mae'r Swyddog Sicrhau Ansawdd allanol yn argymhell Statws Hawliau Uniongyrchol i'r ganolfan ar gyfer cymhwyster penodol yn seiliedig ar y [meini prawf](#) a gyhoeddwyd.

Bydd unrhyw faterion mân neu fawr fel y disgrifir isod yn cael eu cadw mewn golwg wrth ystyried yr argymhelliad hwn.

Nid yw statws Hawliau Uniongyrchol bellach yn berthnasol i gymwysterau craidd gan fod y cymhwyster yn cael ei asesu drwy asesiad allanol yn unig.

3.5 Materion a nodwyd drwy sicrhau ansawdd

Mân broblemau

Os bydd y broses sicrhau ansawdd allanol yn datgelu bod rhai mân broblemau o ran proses sicrhau ansawdd y ganolfan, argymhellir bod y tiwtoriaid a/neu aseswyr yn gweithredu i ddatrys hyn ar unwaith. Gall hyn gynnwys y dysgwyr yn ailsefyll yr asesiad, unwaith y bydd yr holl weithredu adferol wedi digwydd. Mewn achosion o'r fath rhaid i'r ganolfan sicrhau ei bod yn dilyn y broses sicrhau ansawdd fewnol eto cyn i'r SSAA gyflawni gwaith samplu pellach. Gellir samplu o bell yr ail waith, a gall ddigwydd yn ystod yr un cyfnod asesu, neu yn ystod y cyfnod asesu nesaf sydd ar gael.

Fel arfer, yr hyn sy'n cael ei ystyried yn fân broblem yw darparu tystiolaeth anghyflawn, neu rhyw fân wallau ym marn yr aseswyr o ran anghysonderau o fewn **un neu ddau** o farciau.

Problemau mawr

Os bydd y broses sicrhau ansawdd allanol yn datgelu bod problemau mawr o ran proses sicrhau ansawdd y ganolfan, argymhellir nad yw'n bosibl cyhoeddi canlyniadau 'llwyddo' i ddysgwyr tan y bydd y ganolfan wedi datrys yn llawn y cynllun gweithredu ysgrifenedig fydd wedi'i gynhyrchu gan y SSAA.

Bydd yr adroddiad samplu yn nodi'r rhesymau dros y penderfyniad hwn, ac yn disgrifio'r camau y gall y ganolfan eu cymryd i fynd i'r afael â'r problemau.

Gallai problemau mawr ymwneud â'r canlynol:

- Barnu bod y penderfyniadau asesu'n anghywir: aseswr yn cymhwysu'r cynllun marcio'n anghywir at waith dysgwyr, neu yn achos cymwysterau ymarfer, wedi llunio barn anghywir ynghylch a gyflawnodd y dysgwr, ai peidio.
- Penderfyniadau asesu anghyson: bydd y SSAA yn samplu amrediad o benderfyniadau asesu fydd wedi'u gwneud gan y SSAM. Os bydd y dystiolaeth a gyflwynir yn methu â chyrraedd y lefel a ddiffinnir yn y cynllun marcio ond bod yr aseswr wedi barnu ei bod yn bodloni'r meini prawf hyn, mae hyn yn codi amheuan ynghylch dibynadwyedd penderfyniadau asesu'r aseswyr a'r prosesau sicrhau ansawdd mewnol.

3.6 Atal a rhyddhau ardystiad

Lle nodir problemau, gellir atal ardystiad i rai o'r dysgwyr neu'r dysgwyr i gyd yng ngharfan canolfan.

Gall y Swyddog Sicrhau Ansawdd Allanol ofyn am anfon sampl ychwanegol o waith dysgwyr o fewn cyfnod penodol er mwyn sicrhau bod y problemau wedi derbyn sylw.

Os gofynnwyd am dystiolaeth ychwanegol gellir anfon y dystiolaeth honno'n electronig i'r SSAA.

Unwaith y bydd y SSAA yn fodlon bod yr ymgeiswyr wedi bodloni'r safon i lwyddo yn yr asesiad, byddan nhw'n dweud wrth y consortiwm a bydd yr ymgeiswyr yn cael eu hardystio.

3.7 Apelio penderfyniad Swyddog Sicrhau Ansawdd Allanol

Os bydd canolfan yn anghytuno â phenderfyniad Swyddog Sicrhau Ansawdd Allanol, dylai'r ganolfan yn y lle cyntaf gysylltu â'r consortiwm. Bydd hyn yn caniatáu trafodaeth ar gynnwys yr adroddiad, ac yn benodol, bydd yn galluogi'r ganolfan i fynegi os oes unrhyw wybodaeth berthnasol ar gael nad oedd ar gael ar adeg y penderfyniad gwreiddiol. Yna bydd y consortiwm yn ymchwilio ac yn hysbysu'r ganolfan o'r canlyniad.

Os yw'r ganolfan, wedi hyn, yn teimlo bod y penderfyniad sicrhau ansawdd yn anghywir, gellir cyflwyno cais am adolygiad ffurfiol/apêl yn erbyn y penderfyniad, yn dilyn dull adolygu/apelio safonol y consortiwm.